

Comisiwn y Cynulliad: Polisi Cofebion

Chwefror 2019



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd

Caerdydd

CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **Cysylltu@cynulliad.cymru**

Twitter: **@CynulliadCymru**

© **Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Comisiwn y Cynulliad: Polisi Cofebion

Chwefror 2019



Cynnwys

Diben a chrynodeb	6
Rôl y Comisiwn	7
Y broses	10
Rhagor o delerau	11
Atodiad A: Cynllun o Ystâd y Cynulliad	13
Atodiad B: Gofynion y Cais	14

Diben a chrynodeb

- 1.** Mae Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Comisiwn) yn cydnabod bod coffâd cyhoeddus yn ffordd o anrhydeddu, dathlu neu gofio person, grŵp o bobl neu ddigwyddiad o bwys, trwy osod cofeb ar ystâd y Cynulliad, neu drwy enwi seilwaith. Mae'r polisi hwn yn nodi'r broses y bydd y Comisiwn yn ei dilyn i ystyried ac i benderfynu ar gynigion o'r fath ac mae'n rhoi arweiniad i gynigwyr.
- 2.** Mae'r polisi hwn yn angenrheidiol i ddarparu eglurder a chysondeb o ran y broses ar gyfer ystyried cynigion am gofebion, o gofio y bydd llawer o geisiadau yn emosynol eu natur.
- 3.** Yn y polisi hwn, defnyddir y term 'cofeb' i gynnwys placiau, henebion, cerfluniau ac enwi seilwaith ar ystâd y Cynulliad.
- 4.** At ddibenion y polisi hwn, ystâd y Cynulliad yw'r darn o dir a ddangosir ar y cynllun yn Atodiad A.

Rôl y Comisiwn

- 5.** Y Comisiwn fydd yn gyfrifol am benderfynu cymeradwyo neu wrthod cynigion ar gyfer cofebion. Wrth ddod i benderfyniad, caiff y Comisiwn ei arwain gan y polisi hwn fel a ganlyn:
- 5.1.** Bydd y Comisiwn yn ystyried yr holl gynigion y tybir eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodir yn y polisi hwn.
 - 5.2.** Rhaid i'r Comisiwn, fel gwarcheidwad ystâd y Cynulliad, sicrhau na fydd unrhyw benderfyniad y mae'n ei wneud yn amharu ar uniondeb, presenoldeb a statws y Senedd a'r Pierhead, fel canolbwynt bywyd cyhoeddus yng Nghymru. Yn benodol, rhaid i'r Comisiwn fod yn ymwybodol o'r goblygiadau hirdymor sydd ynghlwm wrth gytuno i osod cofebion, a rhaid iddo gynnal 'bar uchel' o ran eu cymeradwyo. Dylid sicrhau mai'r rhagdybiaeth weithredol yw mai'r cam o gymeradwyo cynnig yw'r eithriad yn hytrach na'r rheol. Dylai'r cyfrifoldeb hwn fod yn hollbwysig o ran llywio trafodaethau a phenderfyniadau'r Comisiwn yn y maes hwn.
 - 5.3.** Rhaid cyflwyno cynigion yn ffurfiol yn unol â'r broses ymgeisio a nodir yn y polisi hwn.
 - 5.4.** Gall y Comisiwn alw am gyngor pleidiau mewnol a / neu allanol wrth werthuso cynigion.
 - 5.5.** Gall y Comisiwn gytuno neu wrthod cynigion, neu ohirio ei benderfyniad nes y bydd yn cael rhagor o wybodaeth gan yr ymgeisydd. Gall y rhesymau dros ohirio penderfyniad gynnwys diffyg gwybodaeth, cadarnhad o drefniadau ariannu, caniatâd cynllunio heb ei benderfynu neu ganlyniad unrhyw ymgynghoriad.
 - 5.6.** Bydd yn ofynnol i'r Comisiwn gael mwyafrif o blaid i gytuno ar gynnig.

Meini Prawf ar gyfer Dewis Cofebion

- 6.** Bydd y Comisiwn yn defnyddio'r meini prawf canlynol wrth ystyried yr holl gynigion ar gyfer cofebion:
 - 6.1.** Ni ystyrir cynigion i goffáu unigolion byw. Dim ond cynigion ar gyfer unigolion sydd wedi marw o leiaf 10 mlynedd yn flaenorol fydd yn cael eu hystyried. Efallai y bydd y Comisiwn yn ystyried cyfnod byrrach mewn amgylchiadau eithriadol.
 - 6.2.** Ar gyfer cofebion sy'n coffáu unigolion, mae'n rhaid i'r unigolion fod wedi eu geni yng Nghymru neu wedi byw yno, ac wedi gwneud cyfraniad unigryw, neilltuol i hyrwyddo egwyddorion a gwerthoedd y Cynulliad (democratiaeth, cydraddoldeb a chynaliadwyedd) neu i fywyd Cymru yn gyffredinol.
 - 6.3.** Yn achos cofebion i goffáu digwyddiad mawr yn hanes Cymru, mae'n rhaid i'r digwyddiad fod wedi cael canlyniadau cadarnhaol a pharhaol, wedi digwydd yng Nghymru, ac wedi digwydd o leiaf 20 mlynedd yn flaenorol.
 - 6.4.** Ystyrir a oes cofebion eisoes yn bodoli, yng Nghymru, i goffáu'r unigolyn, y grŵp neu'r digwyddiad.
 - 6.5.** Ni ystyrir unrhyw gynigion i osod cofeb yn uniongyrchol o flaen y Senedd. Yn yr un modd, ni roddir ystyriaeth i osod cofebion ar waliau allanol Adeilad y Pierhead.
 - 6.6.** Mae'r Comisiwn eisoes wedi penderfynu ar leoliad ar gyfer placiau allanol - wal y Senedd sy'n wynebu Canolfan Mileniwm Cymru. Felly, ystyrir cynigion ar gyfer placiau allanol i'w gosod ar y rhan hon o ystâd y Cynulliad yn unig.
 - 6.7.** Rhaid darparu tystiolaeth o ganiatâd aelodau'r teulu, yr ystâd neu unrhyw grŵp sy'n gysylltiedig â'r unigolyn neu'r digwyddiad sydd i'w goffáu.
 - 6.8.** Bydd y Comisiwn yn ystyried a yw'r gofeb yn addas ac yn briodol o ran cynllun, effaith weledol, deunyddiau a gwaith chynnal a chadw a chadwraeth hirdymor ac a yw'n cyd-fynd â chymeriad ystâd y Cynulliad (nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr).
 - 6.9.** Rhaid i'r geiriad ar gofebion fod yn Gymraeg a Saesneg gyda'r testun Cymraeg yn ymddangos yn gyntaf neu ar y chwith neu fel arall, yn unol â gofynion Cynllun Ieithoedd Swyddogol y Cynulliad.

- 6.10.** Bydd y Comisiwn yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau wrth ystyried cynigion ar gyfer cofebion.
- 6.11.** Ni fydd y Comisiwn yn talu'r costau sy'n gysylltiedig ag unrhyw gofeb oni bai bod y Comisiwn ei hun yn cynnig gosod cofeb ac yn cytuno ar hynny.

Y broses

7. Rhaid paratoi cynnig ar gyfer cofeb a'i gyflwyno mewn digon o amser i'r Comisiwn ei ystyried; yn ddelfrydol, dylai hyn fod o leiaf 12 mis cyn y bwriedir ei osod. Ni fydd y Comisiwn yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am oedi yn yr amserlen a ddymunid.

Cynnig Cam 1

8. Dylai ymgeiswyr gyflwyno cynnig cychwynol i'r Comisiwn ei ystyried, yn cynnwys o leiaf yr holl wybodaeth a restrir yn Atodiad B i'r polisi hwn.

9. Ar ôl adolygu cynnig cychwynol, bydd y Comisiwn yn penderfynu naill ai i:

9.1. Ofyn am ragor o wybodaeth neu / a diwygiadau i'r cynnig cychwynol;

9.2. Gwrthod y cynnig; neu

9.3. Cefnogi'r cynnig gan symud ymlaen i Gam 2 y broses ymgeisio.

10. Bydd y Comisiwn yn cyfleu ei benderfyniad i'r ymgeisydd yn ysgrifenedig.


11. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd y Comisiwn yn credu ei bod yn briodol i benderfynu ar gais heb yr angen am ystyriaeth Cam 2. Gall hyn fod, er enghraifft, yn achos ceisiadau am gofeb sy'n cynnwys plac, lle mae gofynion caniatâd cynllunio eisoes wedi'u trafod ymlaen llaw gyda'r awdurdod lleol ac mae'r awdurdod lleol wedi cadarnhau i'r ymgeisydd na fydd angen caniatâd cynllunio. Os yw'r Comisiwn yn penderfynu hepgor y gofyniad am ystyriaeth Cam 2, bydd yn cyfleu hyn i'r ymgeisydd yn ysgrifenedig.

Rhagor o delerau

- 12.** Nid yw'r Comisiwn yn derbyn unrhyw atebolrwydd dros ymgeiswyr na phartïon cysylltiedig mewn perthynas â chostau paratoi cais neu gostau unrhyw weithredu, gosod neu waith cynnal a chadw a chadwraeth parhaus sy'n gysylltiedig â'r gofeb yn dilyn hynny.
- 13.** Gwneir unrhyw benderfyniad gan y Comisiwn i symud ymlaen yn ddidwyll ond ni fydd yn gyfystyr ag ymrwymiad cyfreithiol ffurfiol gan y Comisiwn. Ni chaiff unrhyw ymrwymadau ffurfiol a wneir rhwng y Comisiwn a'r ymgeisydd neu drydydd parti arall, lle bo angen, ond eu heffeithio gan gytundeb(au) ffurfiol a baratowyd ac a gymeradwywyd gan gyfreithwyr y Comisiwn.
- 14.** Pe bai cais yn cael cymeradwyaeth i fwrw ymlaen, mae'r Comisiwn yn cadw'r hawl wedyn i dynnu'n ôl o'r broses os bydd:
- 14.1.** Unrhyw fater yn codi yn ystod y cyfnod gweithredu (er enghraifft, o ganlyniad i ddiwydrwydd dyladwy cyfreithiol) sy'n rhybuddio'r Comisiwn o'r posibilrwydd o fod yn agored i risg gyfreithiol neu risg arall o ganlyniad i'r ffaith bod y cynigion yn torri unrhyw un o rwymedigaethau'r Comisiwn i drydydd parti neu sy'n effeithio'n andwyol fel arall ar ystâd y Cynulliad; neu
- 14.2.** Oedi materol ar ran yr ymgeisydd o ran datblygu gweithrediad y prosiect.
- 15.** Pe bai'r Comisiwn yn cymeradwyo cynnig yn ffurfiol efallai y bydd angen cyngor cyfreithiol a / neu dechnegol allanol arno fel rhan o weithredu'r prosiect. Yr ymgeisydd fydd yn gyfrifol am gostau cyngorwyr allanol y Comisiwn, a fydd yn cael eu cyfleu i'r ymgeisydd cyn gynted ag sy'n ymarferol yn ystod y broses. Bydd costau o'r fath yn dibynnu ar natur a maint y gofeb arfaethedig ond gall gynnwys, er enghraifft:
- 15.1.** Y costau cyfreithiol allanol sy'n gysylltiedig â chyfreithwyr y Comisiwn yn adolygu teitl cyfreithiol y Comisiwn i ystâd y Cynulliad er mwyn gwirio na fyddai'r Comisiwn yn torri unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol i drydydd parti o ganlyniad i osod y gofeb;
- 15.2.** Chwiliadau i wirio, er enghraifft, na fyddai gosod y gofeb yn ymyrryd â seilwaith trydydd parti presennol ar ystâd y Cynulliad fel darparwyr cyfleustodau neu offer telathrebu;

- 15.3.** Gwirio cyfraith gynllunio a chydymffurfiaeth adeiladau rhestredig ar gyfer y cynigion;
- 15.4.** Costau landlord(iaid) y Comisiwn sy'n deillio o unrhyw ganiatâd ffurfiol i'r cynigion y gall fod eu hangen ar y landlord(iaid); ac
- 15.5.** Unrhyw gostau technegol allanol y gall y Comisiwn eu hysgwyddo o ganlyniad i ofyn am gyngor syrfëwr.
- 16.** Gall y Comisiwn hefyd, fel amod o gymeradwyaeth, ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ddarparu diogelwch addas ar gyfer costau'r Comisiwn pe bai'r Comisiwn yn mynnu bod y gofeb yn cael ei dileu, neu phe bai'r ymgeisydd yn methu â chydymffurfio â'i rwymedigaethau i gynnal y gofeb.
- 17.** Disgwylir i'r ymgeisydd gydweithredu'n llawn â staff y Comisiwn a chynghorwyr allanol y Comisiwn yn ystod y cyfnod gweithredu. Gall hyn gynnwys y canlynol, er enghraifft:
- 17.1.** Ymdrin yn brydlon ac yn llawn ag unrhyw geisiadau am wybodaeth; a
- 17.2.** Mynd i mewn i unrhyw ddogfennaeth gyfreithiol y gofynnir amdani yn rhesymol gan y Comisiwn mewn cysylltiad â gosod y gofeb a'r gwaith o'i chynnal a'i chadw'n barhaus.
- 18.** Efallai y bydd y Comisiwn yn penderfynu gweithredu cyfnod adolygu ar ôl gosod cofeb, ac mae'n cadw'r disgrisiwn i fynnu dileu cofeb ar unrhyw adeg. Bydd unrhyw ddileu yn ôl disgrisiwn y Comisiwn, ond bydd y Comisiwn yn ymgynghori â'r ymgeisydd ynglŷn â dileu arfaethedig lle mae'n rhesymol ymarferol i wneud hynny.
- 19.** O bryd i'w gilydd, gall y Comisiwn adolygu telerau'r polisi hwn a diwygio'r meini prawf ar gyfer dewis cofebion neu agweddau eraill ar y polisi lle mae hynny'n briodol. Os bydd y polisi hwn yn cael ei newid, bydd y polisi diwygiedig yn berthnasol i gofebion presennol.

Atodiad A: Cynllun o Ystâd y Cynulliad



Atodiad B: Gofynion y Cais

Cam 1

- Dylai'r cynnig nodi'r unigolyn arweiniol a fydd yn gweithredu fel pwynt cyswllt.
- Dylai'r cynnig nodi'n glir y rhesymau dros y gofeb.
- Dylid asesu lefel y gefnogaeth gyhoeddus, gan gynnwys a oes cefnogaeth gan unrhyw Aelod(au) Cynulliad.
- Rhaid cyflwyno map a ffotograffau yn nodi lleoliad arfaethedig y gofeb.
- Rhaid darparu'r geiriad arfaethedig ar gyfer y gofeb ynghyd â delweddau.
- Rhaid darparu manylion am y cynllun arfaethedig, gan gynnwys lluniadau, dimensiynau a deunyddiau.
- Rhaid i bob cynnig ar gyfer codi cofebion nodi a oes angen caniatâd cynllunio.
- Rhaid cynnwys manylion am y costau a'r ffynonellau cyllid arfaethedig ynghyd â'r cynigion ar gyfer ariannu'r trefniadau cynnal a chadw.
- Bydd angen datganiad clir ar y Comisiwn o'r darpariaethau ar gyfer cadwraeth a chynnal a chadw'r gofeb yn y tymor hir.
- Rhaid i'r ymgeisydd ddarparu manylion am y trefniadau ar gyfer perchnogaeth hirdymor y gofeb. Dewis y Comisiwn yw i drydydd parti gadw perchnogaeth cofebion sy'n cynnwys cerfluniau neu osodiadau tebyg.
- Rhaid cynnwys yr amserlen arfaethedig.

Cam 2

- Yn ychwanegol at y wybodaeth a ddarperir ar gyfer Cam 1, bydd angen y wybodaeth ganlynol ar gyfer Cam 2:
- Gwybodaeth am y cynllun terfynol (gan gynnwys delweddau, cadarnhad o ddeunyddiau a dimensiynau'r gofeb).
- Tystiolaeth o ganiatâd cynllunio a chaniatâd adeilad rhestredig lle mae ei angen ar gyfer y cynigion (neu gadarnhad ysgrifenedig gan yr awdurdod cynllunio lleol nad oes angen caniatâd o'r fath).
- Tystiolaeth bod yr holl arian sydd ei angen ar gyfer y prosiect wedi'i gael (neu sy'n daladwy gan drydydd parti yn amodol ar gwblhau dogfennau cyfreithiol).
- Cadarnhad o'r trefniadau ar gyfer cynnal a chadw, cadwraeth a pherchenogaeth hirdymor y gofeb.
- Y cynllun a'r amserlen ar gyfer gosod y gofeb.

